
# Gweithgaredd Dysgu - Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru.

## Gwaith Haearn Blaenafon

## Gan RCAHMW

## Cyflwyniad




### Gwaith Haearn Blaenafon

Mae'r uned hon yn cynnwys adnoddau rhyngweithiol sy'n addas ar gyfer disgyblion sy'n ymchwilio i newidiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru rhwng 1760 a 1914. Ceir cyfle i ddatblygu sgiliau meddwl trwy ymholi hanesyddol ac i drafod effaith y gwaith haearn ar Flaenafon, sy'n cael ei ystyried yn un o'r llefydd y dechreuodd y Chwyldro Diwydiannol.

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Lleoliad: Sut mae Blaenafon wedi newid dros amser?
2. Cynhyrchu haearn ym Mlaenafon
3. Pam Blaenafon?
4. Amodau gweithio y gwaith haearn
5. Dehongli safle hanesyddol (a)
6. Dehongli safle hanesyddol (b)

## 1. Lleoliad: Sut mae Blaenafon wedi newid dros amser?



*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Mae'r adnodd cyntaf, lleoliad, yn defnyddio mapiau a chynlluniau i ddysgu am Flaenafon, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, ac mae'n ymchwilio i sut mae'r dref wedi newid ers dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.**

Defnyddiwch y mapiau a chynlluniau, yn y cyswllt isod, i ymchwilio i newidiadau ym Mlaenafon.

***Lleoliad, Blaenavon***

Cofnodwch sut mae Blaenafon wedi newid dros amser a pham y digwyddodd hynny.

Trafodwch y ffynonellau a ddefnyddir yn y gweithgaredd hwn.


Pa mor ddefnyddiol yw hen gynlluniau a mapiau? Pa wybodaeth allwn ni eu casglu o'r ffynonellau hyn? Pa wybodaeth bellach yr ydym ei hangen i ddod i ddeall sut beth oedd bywyd yn y gorffennol?

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

***Gwaith Haearn Blaenafon***

# Gwaith Haearn Blaenafon – CA3

## 2. Cynhyrchu haearn ym Mlaenafon



*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Mae'r dasg hon yn seiliedig ar ddefnyddio delweddau i ddod o hyd i 'gliwiau' am y gorffennol.**

Edrychwch ar y lluniau yn y cyswllt isod.

Trafodwch (meddyliwch, trafodwch a rhannwch) beth y gallwn ei weld yn y llun hwn, beth sy'n digwydd, pryd, ble, pam?

***Byd Gwaith (a), Blaeanavon***

***Byd Gwaith (b), Blaenavon***

Trafodwch: Pa bethau nad yw'r lluniau yn gallu eu dweud wrthym? Beth arall yr hoffech chi ei wybod am y lle hwn? Pwy/beth all ein helpu i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol?

Edrychwch ar yr awyrlun o Waith Haearn Blaenafon heddiw. Pa olion sydd i'w gweld heddiw? A ydych chi'n gallu adnabod rhai o'r adeiladau?


***Byd Gwaith (c), Blaenavon***

Allwch chi ddod o hyd i ffynonellau eraill i ymchwilio i hanes gwaith haearn Blaenafon?
Trafodwch pam y caiff Gwaith Haearn Blaenafon ei ystyried yn un o fannau geni'r Chwyldro Diwydiannol.
Beth oedd effaith hyn ar yr ardal, ar Gymru ac ar y byd?
Beth yw arwyddocâd y cyfnod hwn o hanes i'n byd ni heddiw?

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

***Gwaith Haearn Blaenafon***

## 3. Pam Blaenafon?



*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Trafodwch pam y cafodd y gwaith haearn ei sefydlu ym Mlaenafon.**

***Pam Blaenavon?***

Sut caiff haearn ei gynhyrchu? Beth oedd ei angen arnynt i wneud haearn? A oedd y rhain ar gael ym Mlaenafon?

Trafodwch sut y câi'r deunydd crai ei gludo i'r gwaith haearn, sut y câi'r haearn ei gludo i rannau eraill y wlad a'i allforio ledled y byd. Ar gyfer beth y câi'r haearn ei ddefnyddio? Edrychwch ar y lluniau i drafod sut y mae dulliau cludiant wedi newid.


Mae gwybodaeth bellach ynghylch y diwydiant glo i'w ganfod yn yr uned waith 'Straeon Glo' / 'Coal Stories'.

***Coal Stories** (English)*

**Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

***Gwaith Haearn Blaenafon***

## 4. Amodau gweithio y gwaith haearn



*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Mae’r dasg hon yn defnyddio ffynonellau ysgrifenedig hanesyddol o’r cyfnod er mwyn dysgu rhagor am amodau gweithio y gwaith haearn.**

Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd yn y gweithgaredd:

***Adroddiad y Comisiynwyr***

Câi llawer o blant eu hanafu neu eu lladd o ganlyniad i weithio yn y lefelau glo a’r pyllau cloch neu o gwmpas y gwaith haearn. Beth oedd y peryglon posibl i bobl ifanc oedd yn gweithio yn y gwaith haearn?

Ar ôl darllen y tri darn o Adroddiad y Comisiynwyr trafodwch y ffynhonnell.  Sut y gall yr adroddiad hwn ein helpu i wybod mwy am fywyd bob dydd y cyfnod? A yw’r adroddiadau hyn yn ddefnyddiol? A ellir eu hystyried yn bortread cywir?

Gorffennwch y gweithgaredd hwn drwy drafod canlyniad adroddiad y Comisiynwyr; sut yr ymgyrchodd yr Arglwydd Shaftesbury i gael Deddf y Pyllau Glo 1842 a beth oedd wedi newid yng Nghymru erbyn 1901?

A yw plant bach yn dal yn gorfod gweithio heddiw?

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

***Gwaith Haearn Blaenafon***

***Gwaith Haearn Blaenafon***

## 5. Dehongli safle hanesyddol (a)




*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Cadw a Diogelu Safleoedd Hanesyddol**

***Pa dystiolaeth sydd ar ôl heddiw?***

Edrychwch ar yr awyrlun o Waith Haearn Blaenafon heddiw. Pa olion sydd i'w gweld heddiw? Ydych chi'n adnabod rhai o'r adeiladau sydd i'w gweld yn y lithograff ac yn yr adluniad o'r ffotograffau modern eraill?

Mae Gwaith Haearn Blaenafon yn edrych fel hyn heddiw oherwydd fod Cadw wedi ei warchod. Trafodwch pam ei bod yn bwysig ein bod yn gofalu am safleoedd hanesyddol a'u cadw ar gyfer y dyfodol. Beth allai fod wedi digwydd i Waith Haearn Blaenafon?

Edrychwch ar y ffotograff a dynnwyd yn 1977.

**http://www.coflein.gov.uk/cy/safle/20853/delweddau/STACK+SQUARE%2C+BLAENAVON/**

Ydych chi'n adnabod yr adeiladau? Yn 1970 roedd yr adeiladau i'w dymchwel gan eu bod yn 'hyll' ac yn 'beryglus i'r cyhoedd'.

Heddiw mae Blaenafon yn Safle Treftadaeth y Byd (http://www.world-heritage-blaenavon.org.uk/) – safle a ddyfarnwyd gan UNESCO (http://whc.unesco.org/) i fod o 'werth cyffredinol eithriadol'.

Trafodwch sut mae Cadw a sefydliadau tebyg yn penderfynu beth neu ble i'w warchod a'i ddiogelu. A yw'n hawdd penderfynu beth i'w gadw a'i warchod? Sut fyddech chi'n penderfynu? A yw casglu tystiolaeth hanesyddol yn bwysig?

**Cyswllt i ddelweddau ar wefan Casgliad y Werin Cymru**

***Gwaith Haearn Blaenafon***
***Gwaith Haearn Blaenafon***

## 6. Dehongli safle hanesyddol (b)



*Gwaith Haearn Blaenafon*

**Dehongli safle hanesyddol – adluniad**

Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio i greu adluniad?

Edrychwch ar yr adluniad lliw o Waith Haearn Blaenafon a grëwyd ar gyfer Cadw. Trafodwch pa mor ddefnyddiol y mae lluniau o’r fath i’n helpu i ddeall safleoedd hanesyddol ac i greu darlun yn ein dychymyg o’r gorffennol.

***Pa dystiolaeth sydd ar ôl heddiw?***

Creodd Michael Blackmore y llun yn 2002. Sut ydych chi’n meddwl yr aeth yr arlunydd ati i greu’r llun hwn? Beth ydych chi’n ei feddwl y defnyddiodd yr arlunydd i’w helpu i benderfynu beth i’w gynnwys yn y llun hwn?

Meddyliwch am y dystiolaeth yr ydych wedi’i weld. A fyddai’n rhaid i’r arlunydd ymchwilio i’r safle a chwilio am dystiolaeth? Yn eich barn chi, pa fath o dystiolaeth fyddai wedi bod yn fwyaf defnyddiol i’r arlunydd? A fyddai wedi defnyddio’r lithograff o 1801? A yw popeth yn y llun yn gofnod cywir o’r hyn ddigwyddai yn y gwaith haearn tua 1863?

Pe byddech chi’n llunio adluniad o safle hanesyddol, pa dystiolaeth fyddech chi yn ei defnyddio i greu eich llun?

### Cyswllt i ddelwedd ar wefan Casgliad y Werin Cymru

***Gwaith Haearn Blaenafon***